# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# DINAS POWYS

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I Ddinas Powys

Dyma'r cynllun gweithredu cymdogaeth ar gyfer ardal Dinas Powys. Mae gan Ddinas Powys Ysgol Gynradd Dinas Powys ac Ysgol Gynradd St Andrew yr Eglwys yng Nghymru.

Mae gan Ddinas Powys siopau o fewn pellter cerdded. Hefyd mae gan Ddinas Powys ddwy orsaf reilffordd a chysylltiadau bws da.


Mae Dinas Powys yn gartref i Gynllun Tai Gwarchod Fairoaks sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae Fairoaks yn gartref i breswylwyr 55 oed a throsodd. Mae'r cynllun yn elwa o ardal gymunedol sy'n cynnal nifer o weithgareddau ar gyfer preswylwyr a'r gymuned leol.

## Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017- Mae 1,874 o bobl yn byw yn Ninas Powys.
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu i Ddinas Powys yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub i Ddinas Powys yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae 183 eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn ardal Dinas Powys, gyda 47 eiddo lesddaliadol a 54 garej.

Mae 35 o dai a 49 o fflatiau anghenion cyffredinol, 54 o fflatiau i bobl hŷn a 45 byngalo i bobl hŷn gan gynnwys cynllun tai gwarchod Fairoaks. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd yn bennaf rhwng 1945 a 1964.



Library
School
Recn Gd
East Brook
13m
PO
FAIROAKS
SIR IVOR PLACE
MURCH ROAD
ROBIN HILL
GROVE
Melliden






# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?

# Beth yw ei nodau?





Mae Cynllun Cymdogaeth Dinas Powys a Sili yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad. Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

## Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 70% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Fro o 58%.<br>Nid oedd cymdogion swnllyd yn bryder i nifer sy'n byw yn yr ardal gyda dim ond 14% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Fro o 35%.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 100% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn byw yn yr ardal |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 90% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 87% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 76% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn sy'n uwch na chyfartaledd y Fro o 65%.<br>Nododd 80% o denantiaid eu bod yn adnabod Tîm Rheoli Cymdogaeth yr ardal. |
| Galw am gartrefi | Galw isel a geir am gartrefi yn yr ardal hon er ei bod yn dal i fod yn ardal boblogaidd i fyw ynddi. Ceir 16 cais ar gyfartaledd ar eiddo pan y'i cynigir drwy hysbysebu ar gyfer eu hailosod.<br>"Yn agos at siopau a chymdogion cyfeillgar".<br>"Mae'r cymdogion yn hyfryd, lleoliad da, golygfeydd da ac yn mwynhau byw yma". |
| Mynediad at wasanaethau | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws a thrên da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd yn hawdd i Benarth, Y Barri a Chaerdydd.<br>Mae 3 ysgol gynradd gymunedol yn yr ardal gan gynnwys Ysgol Gynradd Dinas Powys, ysgol Gynradd St Andrew ac Ysgol Gynradd Sili.<br>"Ardal dawel, mae pobl leol yn hyfryd, mae'r holl drafnidiaeth gyhoeddus ddim ond 5 munud i ffwrdd a gallwch chi gyrraedd pobman yn hawdd". |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 92% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian.<br>Mae 21% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%. |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod. Roedd 77% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 88% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, tynnodd y preswylwyr sylw at atgyweiriadau a chynnal a chadw fel maes y gellid ei ddatblygu ymhellach i ddiwallu eu hanghenion yn well. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau isel o gyflogaeth o'i chymharu â chymdogaethau eraill. Mae hyn yn dangos bod rhai pobl yn y gymdogaeth yn cael anhawster cael i mewn i'r farchnad swyddi ac efallai nad ydynt â chymwysterau da ar gyfer y swyddi sydd ar gael. |
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Mae 40% o denantiaid yn ymwybodol o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt. |

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Trosiant eiddo | Daeth 12 eiddo yn wag y llynedd sef tua 7% o'r stoc dai yn yr ardal. |
| Tenantiaid gweithgar | Mae Bwrdd Preswylwyr sefydledig sy'n cynrychioli buddiannau pobl hŷn sy'n byw yn Ninas Powys, sy'n gweithredu allan o gynllun Gwarchod Fairoaks. Mae'r Bwrdd wedi ymgyrchu'n frwd dros yr ardal ac wedi bod yn effeithiol wrth ysgogi newid cadarnhaol gan gynnwys y cyfleusterau newydd e.e. uwchraddio allanol, hyrwyddo hawliau tenantiaid a dwyn y Cyngor i gyfrif am wasanaethau a ddarperir.<br>Yn ogystal â'r Bwrdd Preswylwyr, mae grŵp cymdeithasol wedi'i leoli yn Fairoaks.<br>Mae Grŵp Preswylwyr Dinas Powys ar agor i unrhyw un sy'n byw yn Ninas Powys ac mae'n ymdrin â materion ledled yr ardal. Ar hyn o bryd mae Cadeirydd y grŵp yn rhagweithiol iawn yn denu aelodau newydd |
| Trosedd a niwsans | Mae cyfraddau troseddu is na'r cyfartaledd ar gyfer pob math o drosedd, gyda chyfradd y byrgleriaethau a gofnodwyd (fesul 100 o breswylwyr) yn 0.5, Cyfradd y troseddau treisgar yw 1.4 (fesul 100 o breswylwyr), cyfradd y lladradau a gofnodwyd (0.2), cyfradd y difrod troseddol (0.6), a'r YGG yr adroddwyd amdano (1.1). Mae pob un o dan Gyfartaledd y Fro a Chymru.<br>"Mae'n ardal dawel". |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 26% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd y Fro.<br>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o'i chymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod gan fwy o bobl nag arfer broblemau symudedd o ryw fath neu'i gilydd, eu bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig. |
| Pobl ifanc | Mae cyfran y bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal yn unol â chyfartaledd y Fro o tua 19%.<br>Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer Pobl Ifanc trwy Glybiau Ieuenctid a grwpiau cymdeithasol. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ychydig yn is ar gyfartaledd o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.<br>Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn uwch nag ysgolion uwchradd eraill y Fro, ar 11% o'i gymharu â chyfartaledd y Fro o 8%. |
| Mannau agored | Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio. |
| Graddfeydd yr ystad | Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ardal. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystad

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| Barn/sylwadau preswylwyr | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo. | Mae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo. Ardal y garejys - ymddangosiad gwael, llawer o leoedd gwag - allwn ni wneud rhywbeth yn wahanol? |
| Mae ymddangosiad yr ardal yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd.<br>Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae darnau o dir a ddefnyddir y gellid eu troi at well defnydd. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys yn yr ardal oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Mae'r tîm Cymdogaeth yn siarad â phreswylwyr yn rheolaidd ond ar hyn o bryd nid ydynt yn gweithio gydag unrhyw fforymau preswylwyr na grwpiau ymgynghorol eraill. Teimlir bod diffyg cyfle i gael mewnbwn rheolaidd gan breswylwyr ar draws y gymdogaeth gyfan. | Nid yw pobl yn ein hadnabod yn ddigon da/ dim cyswllt cryf.<br>Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg. |

### Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth, gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw'n cael eu gwneud i safon uchel ac yn amserol
- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Sicrhau ansawdd cyffredinol y cartrefi

### Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw'n cael eu gwneud i safon uchel ac yn amserol
- Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal
- Gwella cyfleusterau parcio

## Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystadau i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ac ati. | Gwella diogelwch cymunedol | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | O fewn 12 mis |
| Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella trefniadau parcio. | O fewn 12 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Gweithio gyda thenantiaid sy'n byw yn fflatiau Camms Corner i adfywio a bywiogi'r ardal arwyneb solet / garejys y tu ôl i'r bloc i'w gwneud yn fwy cyfeillgar i deuluoedd. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir eu datblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Mae hwn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gellir defnyddio mannau gwyrdd a thir gwastraff i gynyddu parcio. | Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella cyfleusterau parcio. | O fewn 3 blynedd |
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio ayb. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 12 mis |
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Hyrwyddo bancio amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid. | Datblygu cysylltiadau cymunedol da.<br>Darparu mwy o weithgareddau cymunedol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 6 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Adolygu'r gwasanaethau cynhwysiant digidol cyfredol sydd ar gael yn yr ardal a gweithio gyda thenantiaid i nodi'r cynnig digidol gorau ar gyfer yr ardal. | Cefnogi tenantiaid agored i niwed. Darparu gwasanaethau cynhwysiant digidol.<br>Gwella ymgysylltiad cymunedol.<br>Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.<br>Darparu gwasanaethau cyngor ariannol. | O fewn 12 mis |
| Nodi gofod cymunedol neu atebion symudol i alluogi'r Tîm Rheoli Cymdogaeth i dreulio amser yn gweithio yng nghalon y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys creu gofod y gall preswylwyr lleol ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol. | Gwella ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Adolygu gwasanaethau cymunedol yn yr ardal ar gyfer pobl hŷn a gweithio gyda'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu ystod o brojectau sy'n addas i bobl hŷn ymdrin ag ynysu cymdeithasol. | Darparu gweithgareddau Cymunedol.<br>Cefnogi tenantiaid agored i niwed. | O fewn 3 blynedd |
| Gweithio gyda'n Tîm Atgyweirio Ymatebol i redeg gwasanaethau adrodd am atgyweiriadau yn y gymuned a chael swyddogion yn mynychu sy'n gwneud atgyweiriadau ar adeg adrodd.<br>Gweithio gydag Atgyweiriadau Ymatebol a Thenantiaid i adolygu sut y gallwn ddatblygu'r gwasanaeth atgyweirio ymhellach i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a thenantiaid yn well. | Cynnal ansawdd cyffredinol y cartref.<br>Sicrhau fod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu cwblhau i safon uchel mewn modd amserol. | O fewn 12 mis |
| Cynnal nifer o sesiynau cyngor ariannol a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol. | Darparu cyngor ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau.<br>Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. | O fewn 6 mis |





# Sut i gysylltu â ni:


Dros y ffôn:

01446 700111

Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes Cartrefi'r Fro

Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri


8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener